*Cadeirydd*

Samir Shah

Mae cyfarwyddwr sy’n gwneud ffilm i’r BBC yn bwriadu gwneud recordiad cudd. Mae un arall yn ffilmio rhaglen ddogfen mewn ysgol. Mae cynhyrchydd adloniant eisiau cyflwyno cystadleuaeth i’w rhaglen i gysylltu’n fwy rhyngweithiol â’r gynulleidfa. Beth yw’r rheolau sy’n llywodraethu sut mae’r BBC yn delio â’r materion sy’n cael eu codi gan y gwneuthurwyr rhaglenni hyn?

Mae’r ateb ar dudalennau’r llyfryn hwn – Canllawiau Golygyddol y BBC. Bob dydd, yma yn y DU ac ar draws y byd, mae’r BBC yn comisiynu, yn cynhyrchu neu’n prynu rhaglenni i’w darlledu ar sianeli’r BBC ac ar ei lwyfannau digidol. Rhaid i bob un ohonynt – yn ddieithriad – gydymffurfio â safonau a gwerthoedd golygyddol y BBC.

Mae’r Siarter Frenhinol a’r Cytundeb yn gofyn i’r Bwrdd gytuno ar y safonau golygyddol a fydd yn berthnasol ar draws y BBC. Mae’r Canllawiau Golygyddol hyn yn gwneud hynny ac mae Bwrdd y BBC wedi’u cymeradwyo. Mae’r Canllawiau’n egluro’r gwerthoedd golygyddol sy’n sail iddynt. Yn bwysig, maent yn cynnwys yr hawl i ryddid mynegiant yn ogystal â diffinio’r cydbwysedd rhwng y rhyddid hwnnw a hawliau eraill, preifatrwydd er enghraifft. Mae’r Canllawiau hefyd yn egluro ymrwymiad y Bwrdd i annibyniaeth olygyddol y BBC a phwysigrwydd sylfaenol uniondeb golygyddol allbwn y BBC, yn rhydd o fuddiannau gwleidyddol, masnachol, corfforaethol neu bersonol. Mae’r Siarter hefyd yn ymrwymo’r BBC i ddarparu newyddion a materion cyfoes ac allbwn ffeithiol sy’n ddiiduedd ac yn gywir. Mae’r Canllawiau’n egluro sut gellir cyflawni hynny a phwysigrwydd ei gyflawni drwy adlewyrchu barn yr holl gynulleidfaoedd amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yn ein cynnwys.

Mae’r BBC yn dangos creadigrwydd enfawr ei allbwn bob dydd. Mae dilyn y Canllawiau hyn yn golygu ein bod yn parhau i allu gwneud hynny, ar yr un pryd â dangos y safonau golygyddol y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gennym ni. Mae’r naill a’r llall yn hanfodol i enw da’r BBC yn y DU ac ym mhedwar ban byd.

Mehefin 2025